



Manyleb Personal Rheolwr Gwasanaethau Cynghori

Yr hyn yr ydym ei eisiau

Eich sgiliau, gwybodaeth a phrofiad

Meini Prawf Hanfodol

Byddwch yn rheolwr profiadol a all ddangos y sgiliau a'r rhinweddau canlynol:

- ✓ **Arweinyddiaeth:** Rydych chi'n arwain gyda gonestrwydd, parch a chynhwysiant, gan ysbrydoli timau i gyflawni gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n bodloni gofynion perfformiad.
- ✓ **Atebolrwydd:** Rydych chi'n cymryd cyfrifoldeb am ganlyniadau personol, tîm ac adrannol, gan ddangos tryloywder a pherchnogaeth wrth wneud penderfyniadau.
- ✓ **Hyblygrwydd:** Rydych chi'n gweithio'n effeithiol mewn amgylchedd newidol, gan barhau i fod yn hyblyg ac yn ymatebol i flaenoriaethau, amgylchiadau ac anghenion rhanddeiliaid sy'n newid.
- ✓ **Cyfathrebu:** Rydych chi'n cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol gydag amrywiaeth o gynulleidfaoedd, gan gynnwys rhanddeiliaid, uwch reolwyr, ymddiriedolwyr a phartneriaid allanol.
- ✓ **Wydnwch:** Rydych chi'n cynnal dull adeiladol, proffesiynol, sy'n canolbwyntio ar atebion o dan bwysau ac yn ystod newid.
- ✓ **Gwneud Penderfyniadau:** Rydych chi'n meddwl yn strategol ac yn feirniadol, gan ymarfer barn gadarn a thystiolaeth berthnasol i wneud penderfyniadau effeithiol.
- ✓ **Rheoli Amser:** Rydych chi'n cynllunio ac yn rheoli eich amser yn effeithlon ac yn blaenoriaethu'n effeithiol er mwyn cwrdd â therfynau amser.

Meini Prawf Dymunol

- ✓ Profiad o arwain timau sy'n darparu gwasanaethau cynghori neu wasanaethau cymorth tebyg sy'n wynebu cleientiaid.

- ✓ Profiad o weithio gyda chyllidwyr, ymddiriedolwyr, neu gyrff uwch llywodraethu.
- ✓ Profiad o reoli perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs) neu dargedau darparu gwasanaethau.
- ✓ Profiad o gyfrannu at fentrau datblygu, trawsnewid neu wella gwasanaethau.